

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 9 Tachwedd 2011

**Preseanol:** Dr D Assinder, Miss S Barnes, Dr G Clarke, Mr J East, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Ms L Fowle, Mr A Jones, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr G Parry, Mr J Patton, Ms E Riches, Mr D Roberts, Dr D M Roberts, Mr E Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Dr T Woodman, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Mr R Dart.

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Dylan Roberts (Cyfarwyddwr Gweithredol, Ystadau a Chyfleusterau), Dr Tim Woodman (Cynrychiolydd y Senedd) ac Alan Jones i'r Pwyllgor.

#### 383. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20 Mai 2011.

#### 384. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 377(a) Ystafelloedd a amserlennir yn ganolog:

Mae'r Gweithgor wrthi'n datblygu templed asesu risg ar gyfer manau a amserlennir yn ganolog. Bydd hyn yn galluogi i archebion am ystafelloedd gael eu blaenoriaethu, yn dibynnu ar y risgiau'n gysylltiedig â phob man a amserlennir.

(b) Cofnod 377(c) Safonau polisi i'w cymeradwyo:

Ers i'r holiadur ar-lein ar asesu risgiau teithio gael ei ddarparu ym Medi 2011 mae wedi ei ddefnyddio 350 o weithiau. Caiff y system, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r system Yswiriant Ariannol, ei hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ystyried a ddylai ei fformat gael ei ddatblygu ymhellach. Diolchwyd i Sam Foster a'i Dîm TG am eu cymorth yn creu'r system.

(c) Cofnod 379 Adroddiad Radon:

Bydd yr Arolwg Radon nesaf (Cam Pedwar) yn dechrau yn Rhagfyr 2011. Bydd yr arolwg yn canolbwyntio ar fesur radon mewn adeiladau lle gwnaed gwaith i leihau gollyngiadau radon ac mewn adeiladau a brynwyd neu a brydleswyd yn ystod y 12-14 mis diwethaf.

(d) Cofnod 381 Cynhadledd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-orllewin Cymru "The Ever Changing World of Health and Safety:

Tynnodd y Cadeirydd sylw at ansawdd y Gynhadledd ddiweddar a gynhaliwyd yn y Brifysgol. Roedd yn ddiwrnod diddorol, a drefnwyd yn dda. Roedd y cynadleddwyr yn frwd eu canmoliaeth a diolchwyd i'r rhai a fu'n ymwneud â'i threfnu am eu hymdrechion.

#### 385. ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Trafodwyd yr eitemau arwyddocaol canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor:

- i. SEQOHS – *Safe Effective Quality Occupational Health Service*. Mae'r Grŵp Tasg yn llwyr gefnogi'r cais am achrediad SEQOHS.

- ii. Smygu: Cytunwyd i arbrofi â nifer o lochesau ysmegu ar Safle Ffriddoedd.
- iii. Cyfarfod Briffio i Reolwyr: Nodwyd y bydd y cyfarfod briffio nesaf yn canolbwyntio ar straen.

### 386. **ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol adroddiad a nodwyd bod cyfran sylweddol o waith yr Adran o ddydd i ddydd yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw a drefnwyd ymlaen llaw neu waith brys, gan roi cefnogaeth i Golegau ac Adrannau i'w galluogi i barhau â'u gweithgareddau.

Penderfynir ar waith a phrojectau cynnal a chadw o bwys yn y dyfodol yn dilyn dadansoddiad manwl o oblygiadau a manteision. Nodwyd na fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail iechyd a diogelwch yn unig, gan fod rhaid i'r cyfryw gael eu cydbwysio â ffactorau pwysig eraill.

Nodwyd y canlynol hefyd:

- i. Ad-drefnu Ystadau a Chyfleusterau: Mae Gwasanaethau Busnes, Chwaraeon a Hamdden a Llety Preswyl wedi gwahanu oddi wrth yr Adran Ystadau a Chyfleusterau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ynghylch y newidiadau sydd eu hangen mewn swyddogaethau a chyfrifoldebau, polisïau, dulliau gweithredu a chefnogaeth broffesiynol o ganlyniad i'r ymrannu hwn.
- ii. Projectau: Mae nifer o brojectau sylweddol ar y gweill, sef Pontio, Ehangu Cynaliadwy Systemau Arfordirol a Môr Cymhwysol (SEACAMs) ac Rathbone fel y Ganolfan Ryngwladol newydd.
- iii. Ystafelloedd Dysgu: Mae nifer o ystafelloedd dysgu i gael eu hadnewyddu. Hefyd penodir Cydlynedd Cyfleusterau a fydd yn gyfrifol am fonitro'r ystafelloedd ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn sicrhau parhad eu cyflwr a'u haddasrwydd.

Tynnwyd sylw at elfennau 'anweledig' gwaith yr Adran a'u canmol. Er enghraifft, yn ystod yr eira trwm bu'r staff y Tiroedd yn cludo staff allweddol i'r gwaith, sicrhaodd staff Diogelwch bod yr adeiladau'n ddiogel a gofalodd y staff Technegol bod acwaria'n dal i weithredu drwy ddarparu cyflenwadau rheolaidd o ddŵr môr ffres iddynt.

### 387. **ADRODDIAD GAN Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

Rhoddwyd crynodeb o weithgareddau diweddar yr Adran. Nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn:

- i. SEQOHS: Mae ymweliad rhagarweiniol i'w drefnu gyda'r Achredwyr SEQOHS yn dilyn Adolygiad llwyddiannus gan Ymarferwr Arbenigol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr .
- ii. Agenda Iechyd: Defnyddir canlyniadau arolwg staff i lywio agenda iechyd 2012. Trefnwyd yr arolwg hwn fel rhan o broses achrediad SEQOHS a oedd yn galluogi staff i nodi pa gefnogaeth yr hoffent ei chael.
- iii. Wythnos Ymwybyddiaeth Genedlaethol Gofal Cefn: Mae ugain o staff yn cymryd rhan yn awr yn y Clwb Gofal Cefn 2011 yn dilyn achlysur fis Hydref i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch genedlaethol gofal cefn.
- iv. Cymorth Cyntaf: Gwnaed arolwg o'r ddarpariaeth a hyfforddiant cymorth cyntaf.
- v. Ymwybyddiaeth Alcohol : Cynhelir ymgyrch ymwybyddiaeth alcohol cyn y Nadolig.
- vi. Ysmegu: Mae darganfyddiadau Arolwg Ysmegu, a ddatblygwyd gyda Helen Kalliope Smith (Canolfan Bedwyr) i'w defnyddio yn ymgyrch 2012 Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmegu. Diolchwyd i Ms Kalliope Smith sydd hefyd wedi derbyn *Tobacco Excellence*

*Award* (gan ASH Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru) i gydnabod ei hymdrechion personol yn hyrwyddo negeseuon dim ysmegu drwy Storm FM, ac am ymchwilio pam fod ysmygwyr yn ysmegu a pham y rhoddodd cyn ysmygwyr y gorau iddi.

- vii. Cefnogaeth gyda Dychwelyd i'r Gwaith: Mae meddygon teulu a phrif gyflogwyr lleol wedi cael gwahoddiad i weithdy yn gynnar yn 2012 i edrych sut y gellir gwella cefnogaeth i rai sydd ar absenoldeb salwch hir dymor. Mae hyn yn dilyn astudiaeth o Nodiadau Ffitrwydd i Weithio a ddangosodd bod meddygon teulu'n rhoi llai o gyngor i gefnogi pobl sy'n dychwelyd i'r gwaith nag a roddwyd yn ystod y cyfnod cychwynnol o chwe mis yn dilyn lansio'r cynllun.
- viii. Archwiliad Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch: Mae'r archwiliadau wedi aildechrau gyda CoHABs ar ôl iddynt gael eu gohirio dros dro er mwyn llunio trefniadau rheoli iechyd a diogelwch gyda CoPAS, y gellir eu defnyddio nawr fel templed gan Golegau eraill.
- ix. Undeb y Myfyrwyr: Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu trefniadau iechyd a diogelwch ymysg Clybiau a Chymdeithasau myfyrwyr. Caiff crynodeb o weithgareddau iechyd a diogelwch cyffredinol Undeb y Myfyrwyr ei gyflwyno i'r pwyllgor yn Chwefror.
- x. Grŵp Diogelwch rhag Tân: Mae asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau nawr ar gyfer pob adeilad. Mae'r rhain yn awr yn cael eu coladu gan y Swyddog Diogelwch Tân (Ystadau a Chyfleusterau) cyn cael eu hanfon at y bobl briodol yn y gwahanol adeiladau i gael sylwadau arnynt. Bydd ymgynghori ar y Polisi Diogelwch rhag Tân diwygiedig a'r Canllawiau Rheoli Diogelwch rhag Tân yn dechrau'n gynnar yn 2012.
- xi. Mae gwaith trylwyr yn parhau ar delerau un i un er mwyn sicrhau y cefnogir anghenion iechyd a diogelwch myfyrwyr gydag anableddau.
- xii. Aseidiadau Risg Corfforaethol Iechyd a Diogelwch: Mae gwaith yn parhau i ddatblygu meincnodau ar gyfer meysydd risg allweddol.
- xiii. NWWHSG: Canmolwyd y gwaith sy'n gysylltiedig â threfnu'r Gynhadledd NWWHSG a threfnu'r sgysiau NWWHSG misol. Mae'r rhain yn fforwm pwysig i gyflogwyr lleol gyfarfod a dysgu am iechyd a diogelwch.
- xiv. Benthg Beics: Bydd y cynllun hwn, lle'r adnewyddwyd hen feics y cafwyd hyd iddynt ar y Campws, yn galluogi staff a myfyrwyr i fenthg beic am ddim. Rhagwelir y bydd y cynllun yn dechrau'n fuan yn 2012.

### **388. UNRHYW FATER ARALL**

- i. Diolchodd Cyfarwyddwr Gweithredol Ystadau a Chyfleusterau i'r Tîm Iechyd a Diogelwch am eu cefnogaeth gyson.

### **389. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH 2011 – 2012**

Bore Mercher, 8 Chwefror 2012 am 10 o'r gloch yn Ystafell y Cyngor

Bore Mercher, 23 Mai 2012 am 10 o'r gloch yn Ystafell y Cyngor